



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Adran y Gymraeg

Arbenigeddau Ymchwil a Diddordebau Goruchwylio

Adran y Gymraeg

Mae Adran y Gymraeg yn adran uchelgeisiol a bywiog, a'i gwreiddiau'n mynd yn ôl i 1920 pan ddaeth Coleg Abertawe yn rhan o Brifysgol Cymru. Mae'n un o'r deg adran sy'n ffurfio Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ac mae'n cyfrannu'n helaeth i weithgarwch Academi Hywel Teifi sy'n gyfrifol am gydlyn y hybu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol gyfan.

Bu ysgolheigion blaenllaw yn aelodau o staff yr Adran dros y blynyddoedd: bu Henry Lewis, D. Ellis Evans a Hywel Teifi Edwards yn athrawon yma, a bu Saunders Lewis yn ddarlithydd yma cyn iddo gael ei ddiswyddo yn dilyn ei ran ym mhrottest 'Y Tân yn Llŷn'. Mae'r traddodiad ysgolheigaidd gwych hwnnw'n parhau dan ofal staff ymchwil presennol Adran y Gymraeg a enillodd fri haeddiannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfrif eu hymchwil mewn meysydd megis llenyddiaeth ddiweddar, theori beirniadol, golygu testunau o'r cyfnod diweddar ac o'r cyfnod canol ac ysgrifennu creadigol. Yma y lleolwyd y prosiect amladrannol a gynhyrchodd y golygiad electronig newydd o waith Dafydd ap Gwilym, www.dafyddapgwilym.net, ac mae dau brosiect mawr ar waith yn yr Adran ar hyn o bryd, sef paratoi'r Esboniadur Beirniadaeth a Theori – adnodd ar-lein hynod werthfawr i bawb sy'n ymddiddori mewn llenyddiaeth a theori beirniadaeth; a CorCenCC: Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes – dull cymunedol o adeiladu corpws ieithyddol.

Dangosodd y ddau Asesiad Ymchwil diweddaraf, RAE2007 a REF2014, fod Adran y Gymraeg yn uned o ragoriaeth ym Mhrifysgol Abertawe, a'r staff yn cynhyrchu'n gyson waith ymchwil a gyfrifir o'r radd flaenaf yn rhyngwladol. Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe a gafodd y canlyniad gorau oll o blith y sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a gloriannwyd ym maes Astudiaethau Celtaidd yn REF2014.

Mae Adran y Gymraeg yn cynnig tair gradd ymchwil wahanol, a phob un yn gofyn am brosiect ymchwil ar bwnc penodol ac iddo elfen gref o wreiddioldeb ac ysgolheictod:

- PhD (traethawd hyd at 100,000 gair; 3 blynedd yn llawn-amser neu 6 blynedd yn rhan-amser)
- MPhil (traethawd hyd at 60,000 gair; 2 flynedd yn llawn-amser neu 4 blynedd yn rhan-amser)
- MA trwy Ymchwil (traethawd hyd at 40,000 gair; 1 flwyddyn yn llawn-amser neu 2 flynedd yn rhan-amser)

Gofynion Mynediad

PhD – gradd 2i neu ddosbarth cyntaf ar lefel israddedig, yn ogystal â gradd Meistr mewn pwnc perthnasol.

MPhil ac MA trwy Ymchwil - gradd 2i neu ddosbarth cyntaf ar lefel israddedig, neu gymwysterau proffesiynol perthnasol.

Dylai ymgeiswyr rhyngwladol feddu ar IELTS o 6.5 o leiaf (neu ei gyfwerth). Gall myfyrwyr gofrestru yn hwyr ym mis Medi, neu ar ddechrau Ionawr, Ebrill neu Orffennaf.

Sut i Wneud Cais

Gellir gwneud cais naill ai i Swyddfa Dderbyn y Brifysgol neu trwy'r wefan: www.swansea.ac.uk / ôl-radd, lle y cewch ffurflen gais ar-lein ynghyd â manylion am ffoedd cyfredol.

Cysylltu â ni

Mae croeso i ddarpar ymgeiswyr gysylltu â thîm derbyn Canolfan Graddedigion y Celfyddydau a'r Dyniaethau am fwy o fanylion a chyngor ar gynllunio cynnig ymchwil, e-bost: COAHGradCentrePGRAdmissions@swansea.ac.uk.

Am fwy o wybodaeth ynghylch gwneud ymchwil yn Adran y Gymraeg, neu ynghylch arbenigedd ymchwil ein staff, mae croeso i chi gysylltu â Swyddog Ôl-radd Adran y Gymraeg, Mr Robert Rhys: e-bost: r.g.rhys@abertawe.ac.uk

Am wybodaeth lawn ar weithgareddau Adran y Gymraeg, ewch i: www.abertawe.ac.uk/adranymgymraeg

Adran y Gymraeg

Yr Athro Tudur Hallam

Meysydd Arbenigedd: drama, ysgrifennu creadigol, barddoniaeth a barddoneg, dwyieithrwydd a'r berthynas rym rhwng ieithoedd.

Dr Gwennan Higham

Meysydd Arbenigedd: leithyddiaeth gymdeithasegol, caffael iaith, agweddau mewnfudwyr at ddysgu Cymraeg, amlddiwylliannedd, dinasyddiaeth.

Yr Athro Alan Llwyd

Meysydd Arbenigedd: Llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif, hanes yr Eisteddfod Genedlaethol, ysgrifennu creadigol.

Steve Morris

Meysydd Arbenigedd: leithyddiaeth gymdeithasegol a chorpws, cynllunio ieithyddol, caffael iaith, cyfieithu.

Robert Rhys

Meysydd Arbenigedd: Daniel Owen a llenyddiaeth y 19eg ganrif, Waldo Williams, llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif, llenyddiaeth gyfoes, beirniadaeth lenyddol.

R.Gwynedd Parry

Meysydd Arbenigedd: Datganoli, hunaniaeth ddiwylliannol a ieithyddol, hawliau iaith, rheoleiddio dwyieithrwydd.

Dr Hannah Sams

Llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif; llenyddiaeth gyfoes; y ddrama abswrdaidd

Swyddogion ymchwil

Dr Jennifer Needs – prosiect CorCenCC – Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes

Dr Mair Rees – prosiect CorCenCC – Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes

Dyma rai o'r meysydd y mae ein myfyrwyr yn ymchwilio ynddynt ar hyn o bryd: Chwedlau'r Mabinogion; ysgrifennu creadigol (barddoniaeth a drama); rhyddiaith Dafydd Rowlands; salwch meddwl mewn llenyddiaeth; y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith mewn ysgolion; defnyddio data prosiect CorCenCC i gefnogi dysgu iaith; y stori fer Gymraeg 1970-1985; y portread o fenywod mewn llenyddiaeth deithio am America Ladin; barddoniaeth Gwyn Thomas; y cynllun dysgu Cymraeg yn y Wladfa.

